

Recriwtio a chadw athrawon

Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Medi 2024



Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg © Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024 Gellir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol neu ddifriol. Mae'n rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Comisiwn y Senedd a nodi teitl y ddogfen.

Cynnwys

1. Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu.....	4
Cefndir.....	4
Amcanion.....	4
Methodoleg.....	5
Cyfranogwyr.....	5
Y prif ganfyddiadau.....	5
2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu.....	7
Heriau recriwtio.....	7
Mwy o lwyth gwaith.....	9
Llesiant staff.....	11
Blinder yn sgil newid.....	12
Diffyg hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.....	13
Recriwtio i bynciau blaenoriaeth.....	15
Recriwtio i rolau arweinyddiaeth / bugeiliol.....	19
Canfyddiad y cyhoedd o addysgu.....	21
Ymddygiad myfyrwyr.....	23
Cymorth ADY.....	25
Pryder ynghylch parodrwydd myfyrwyr AGA.....	26
Trosiant uchel o staff cymorth.....	28
Hirhoedledd gyrfa.....	30
Craffu allanol.....	31
Cyllid.....	32
Atebion.....	33
Gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a lles athrawon.....	33
Datblygiad proffesiynol cefnogol.....	33
Ymddygiad myfyrwyr a chymorth ADY.....	35
Gwella llif ITE.....	35
Cyllido ysgolion.....	36
Canfyddiad y cyhoedd o addysgu.....	37
Atodiad 1: Cwestiynau'r Cyfweiliadau a Grwpiau Ffocws	37

Athrawon Presennol.....38

Athrawon sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar39

Athrawon Uwch-dîm Arwain a Phenaethiaid41

Atodiad 2: Cwestiynau Arolwg Byr.....44

1. Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

Mae'r crynodeb hwn o'r gwaith ymgysylltu yn cynnig trosolwg o ddyluniad y rhaglen ymgysylltu, y ffordd y cafodd ei chyflwyno a'r canfyddiadau allweddol.

Cefndir

1. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru.
2. Roedd y Pwyllgor yn dymuno clywed yn uniongyrchol gan y rhai sydd â phrofiad bywyd o addysgu. Hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfweiliadau, grwpiau ffocws ac arolwg ag athrawon presennol yn ogystal â'r rhai sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar. Roedd y Pwyllgor yn dymuno clywed gan athrawon presennol yn ogystal â'r rhai sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar. Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion raglen o grwpiau ffocws, arolwg ar-lein a nifer o gyfweiliadau gyda'r gynulleidfa darged hon.

Amcanion

3. Amcan y cyfweiliadau oedd casglu barn a phrofiadau staff addysgu ar draws lleoliadau cynradd, uwchradd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ('ADY' o hyn ymlaen) i ddeall y rhwystrau i recriwtio a'r materion sy'n effeithio ar gadw athrawon yn well.
4. Casglwyd barn i sicrhau bod y rheini sydd â phrofiadau bywyd yn cyfrannu at y rhaglen casglu tystiolaeth, gyda ffocws penodol ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer yr ymchwiliad:
 - **Rhwysterau i recriwtio:** Derbyniadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon ('AGA' o hyn ymlaen) a ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio i swyddi (gan gynnwys ffocws ar bynciau blaenoriaeth, cyfrwng Cymraeg, ysgolion uwchradd ac effaith diwygiadau addysgol Cymru ar recriwtio athrawon).
 - **Ffactorau sy'n effeithio ar gadw:** (gan gynnwys ffocws ar bynciau blaenoriaeth, cyfrwng Cymraeg, ysgolion uwchradd ac effeithiolrwydd cymorth cynnar mewn gyrfa).

- **Arweinwyr ysgolion:** ffactorau penodol sy'n effeithio ar recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion.
- **Effaith ar ddysgwyr:** y sefyllfa bresennol o ran addysg a chyflwyno addysg a'r effaith ar gymorth ehangach i ddysgwyr.

Methodoleg

5. Cynhaliwyd cyfweiliadau a grwpiau ffocws ar-lein ac yn bersonol. Er mwyn darparu ar gyfer athrawon ag amser cyfyngedig i ymgysylltu, dosbarthwyd arolwg hefyd i'r rhai nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiynau.
6. Casglwyd data ansoddol gan athrawon ystafell ddosbarth, arweinwyr pwnc, uwch dimau arweinyddiaeth a phenaethiaid ysgolion ar draws pob lleoliad ysgol.

Cyfranogwyr

7. Rhannwyd arolwg sgrinio i gasglu mynegiadau o ddiddordeb yn y rhaglen ymgysylltu'n eang ar draws llwyfannau digidol a chyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynhyrchu 170 o ymatebion.
8. O ganlyniad i'r ymatebion hyn, ymgysylltodd y Rheolwr Ymgysylltu â Dinasyddion yn uniongyrchol â 24 o athrawon trwy:
 - 4 grŵp ffocws ar-lein
 - 1 ford gron hybrid i benaethiaid
 - 8 cyfweiliad ar-lein
 - 2 gyfweiliad wyneb yn wyneb
9. Yn ogystal, cwblhaodd 40 o athrawon ac arweinwyr ysgolion arolwg a gynlluniwyd ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiynau ymgysylltu.
10. Mae cyfranogwyr ac ymatebwyr yn cynrychioli 26 o etholaethau.

Y prif ganfyddiadau

11. Cytunodd yr holl gyfranogwyr ac ymatebwyr fod recriwtio a chadw athrawon ledled Cymru yn her sylweddol. Mae llwythi gwaith trwm, wedi'u gwaethygu gan gyfarwydddebau newydd parhaus, yn ogystal â chystadleuaeth gan sectorau eraill, yn cyfrannu at y pwysau i recriwtio a chadw staff addysgu.

Mae'r mater hwn i'w deimlo'n arbennig mewn pynciau blaenoriaeth, rolau arwain yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Cymraeg.

12. Pwysleisiodd cyfranogwyr fod llwyth gwaith gormodol a diffyg hyblygrwydd yn ffactorau mawr sy'n gyrru athrawon i ffwrdd o'r proffesiwn. Tynnwyd sylw at y pwysau cyson o'r mentrau newydd parhaus, y maent yn eu profi ochr yn ochr â gofynion dyddiol a dyletswyddau gweinyddol rôl addysgu. Mae hyn yn gadael ychydig iawn o amser ar gyfer bywyd personol neu adferiad. Nododd athrawon fod y gofynion hyn yn aml yn cael eu gwaethygu gan brinder staff a throsiant uchel, yn enwedig mewn rolau cymorth, sy'n cynyddu'r baich ar y staff sy'n weddill.

13. Cytunodd athrawon ac arweinwyr ysgolion hefyd fod ymddygiad myfyrwyr sy'n gwaethygu a'r niferoedd cynyddol o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynyddu'r pwysau ar athrawon ymhellach, yn enwedig pan fo adnoddau a chymorth arbenigol allanol yn gyfyngedig.

14. Mynegodd cyfranogwyr ac ymatebwyr eu rhwystredigaeth am ganfyddiad negyddol y cyhoedd o addysgu, sy'n cyfrannu at lefelau recriwtio isel i'r proffesiwn. Nodwyd, gyda nifer y myfyrwyr ITE eisoes yn gostwng, bod pryder ynghylch sut y bydd y proffesiwn yn cynnal ei hun yn yr hirdymor.

15. Pwysleisiodd arweinwyr ysgolion ac athrawon fod cyllid annigonol, craffu allanol, a chyfleoedd datblygu proffesiynol cyfyngedig i gyd yn cael eu nodi fel materion sy'n gwaethygu'r heriau hyn, gan danseilio gweithrediadau ysgolion, morâl athrawon, ac ansawdd cyffredinol yr addysg a ddarperir i bobl ifanc yng Nghymru.

2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mae'r adran hon yn amlinellu'r themâu allweddol, y safbwyntiau a'r atebion a fynegwyd gan y bobl y cyfwelwyd â nhw.

16. Ar ddiwedd rhai o'r themâu isod, rydym yn cyflwyno casgliad o atebion a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn ystod y sesiynau ymgysylltu. Mae'r awgrymiadau hyn yn adlewyrchu creadigrwydd a phryderon ein cyfranogwyr.

Heriau recriwtio

17. Roedd penaethiaid, arweinwyr ysgolion ac athrawon i gyd yn cytuno bod y sefyllfa bresennol o ran recriwtio a chadw athrawon yn cyrraedd pwynt argyfwng, lle mae prinder staff cymwys yn dechrau effeithio ar ansawdd addysg a gallu ysgolion i ddiwallu anghenion eu myfyrwyr.

"Y gwir mewn gwirionedd yw, yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld sefyllfa lle roedd recriwtio yn iawn yn mynd i ddrwg, ac yn mynd o ddrwg, i drychinebus."

Mae'n teimlo fel ein bod ni mewn troell ar i lawr fel proffesiwn. Mae'r holl agweddau hyn yn ein cyflymu tuag at y troell hwn i lawr ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw un yn rhoi'r brêcs ymlaen. Boed yn ymwneud â chyllid, boed yn ymwneud â recriwtio, boed yn ymwneud ag ansawdd athrawon, boed yn ymwneud ag ôl-lenwi'r heddlu a gwasanaethau ieuchyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol oherwydd eu bod nhw wedi'u tanariannu hefyd? Mae'r pwysau ar ysgolion ac arweinwyr ysgolion wedi dod bron yn anghynaliadwy." – Pennaeth uwchradd

"Oes gan Gymru strategaeth ar gyfer recriwtio?" – Pennaeth Uwchradd

18. Mynegodd arweinwyr a staff ysgolion eu pryder ynghylch yr anhawster cynyddol wrth recriwtio staff i swyddi gwag. Maent yn cytuno eu bod wedi gweld gostyngiad sylweddol ac amlwg yn nifer yr ymgeiswyr sy'n gwneud cais am swyddi gwag. Mae hyn yn rhoi straen ychwanegol ar weithlu sydd eisoes wedi'i

ymestyn, lle gofynnir i athrawon ymgymryd â chyfrifoldebau a phynciau ychwanegol.

“Mae’r straen mae [recriwtio staff] yn ei roi ar ein hathrawon presennol, a’n uwch dîm arwain yn anfesuradwy ar hyn o bryd. Mae’n ofnadwy” – Pennaeth Uwchradd

19. Nododd rhai arweinwyr ysgol hefyd fod heriau recriwtio ar lefel uwchradd bellach yn ymestyn y tu hwnt i bynciau blaenoriaeth traddodiadol, gyda llai o bynciau bellach yn cael eu hystyried yn hawdd recriwtio ar eu cyfer. Cwestiynodd penaethiaid a oedd digon yn cael ei wneud i fynd i’r afael â hyn.

“Y tu hwnt i Addysg Gorfforol efallai ac efallai Hanes, mae’r heriau’n enfawr ac nid yw’n gwella. Mae’n mynd yn waeth ac yn waeth bob blwyddyn.” – Pennaeth Uwchradd

“Rwy’n credu y byddwn ni’n cyrraedd pwynt lle byddwn ni’n rhedeg allan o athrawon rwy’n ofni. Bydd yn rhaid i ni roi’r gorau i addysgu rhai pynciau.” – Pennaeth Uwchradd

20. Roedd arweinwyr yn cydnabod y cydbwysedd anodd rhwng cynnal safonau dysgu uchel a diwallu’r angen uniongyrchol i gwmpasu dosbarthiadau. Maent yn nodi bod yr anghydbwysedd hwn yn dod yn fwy amlwg wrth i’r pwysau i recriwtio dyfu.

“Wrth recriwtio pobl, dydyn ni ddim yn edrych ar addysgu a dysgu, rydyn ni’n cyflogi pobl i’w rhoi o flaen yr ystafell ddosbarth i gael athro - p’un a ydyn nhw’n arbenigwr, hyd yn oed os ydyn nhw’n arbenigwr, p’un a ydyn nhw’n ddigon dda, ac mae gennych chi’r anghydbwysedd enfawr hwnnw rhwng cael y deilliannau gorau i blant (sy’n dod o addysgu a dysgu o ansawdd uchel) a rhoi pobl o’u blaen nad ydyn nhw, a bod yn onest, yn ddigon da ar gyfer y swydd. Ond beth ydych chi’n ei wneud?” – Pennaeth

“Mae angen meddwl y tu hwnt i’r bocs fel ma sawl pennaeth arall di cyfeirio ati – trio uwch sgilio unigolion mewn ail pwnc, trydydd pwnc ac yn y blaen er mwyn sicrhau bod gennym ni athro o flaen pob dosbarth.” – Prifathrawes Uwchradd

*“Mae recriwtio yn effeithio ar ansawdd y gwersi sy’n cael eu cyflwyno.”
Pennaeth*

21. Nododd arweinwyr ysgolion y gall ffactorau daearyddol ddylanwadu ar recriwtio ar gyfer rolau anodd eu llenwi, gydag ysgolion cyfrwng Saesneg ger y ffin yn gallu tynnu o gronfa ehangach o ymgeiswyr, tra bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y gogledd a’r gorllewin yn wynebu nifer mwy cyfyngedig o geisiadau.

“Rydyn ni wedi’n lleoli yng ngogledd Cymru a gallaf edrych allan o’r ffenestr a gweld Lloegr. Mae 80% o’r staff wedi’u hyfforddi yn Lloegr, felly rydyn ni mewn system lle nad yw’r system Gymraeg yn gallu ein cynnal. Pryd bynnag rydyn ni’n cael athro Saesneg newydd, neu os ydyn ni’n ddigon ffodus i gael athro Gwyddoniaeth, maen nhw bob amser yn dod dros y ffin – Swydd Gaer, Glannau Mersi, Manceinion Fwyaf, a’r Cilgwri.” – Pennaeth uwchradd

22. Mynegodd penaethiaid bryder hefyd am nifer yr athrawon sy’n gadael Cymru i addysgu yn Lloegr oherwydd systemau a ariennir yn well a strategaethau cadw mwy effeithiol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod sawl rheswm cadarnhaol dros recriwtio pobl i Gymru a bod angen hyrwyddo’r rhain yn gryfach er mwyn denu a chadw staff o fewn system Cymru.

“Mae gennym ni gymydog mawr iawn, sydd wedi’i ariannu’n dda ar garreg ein drws sy’n cymryd llawer o’n staff gorau. Mae’r bobl hynny’n mynd i ffwrdd i hyfforddi mewn prifysgolion da, ac mae ganddyn nhw systemau effeithlon iawn i geisio dal y staff hynny, yna eu cadw – gan gynnwys staff sy’n siarad Cymraeg. Yna rydych chi wedi eu colli nhw yn y bôn a dydyn nhw byth yn mynd i ddod yn ôl i Gymru.” – Pennaeth Uwchradd

Mwy o lwyth gwaith

23. Daeth y mater o lwythi gwaith cynyddol i’r amlwg fel thema ailadroddus ymhlith cyfranogwyr, gydag athrawon yn tynnu sylw at ei gyfraniad at lefelau uwch o flinder a salwch ymhlith staff. Nododd llawer fod hyn yn rheswm sylweddol dros nifer yr athrawon sy’n gadael y proffesiwn.

24. Dywedodd y cyfranogwyr fod disgwyliad cynyddol i athrawon ymgymryd â rolau y tu hwnt i'w cyfrifoldebau addysgu craidd, tuedd sy'n cyfrannu at ludded yn y proffesiwn. Nododd un cyfranogwr fod athrawon yn aml ar y rheng flaen wrth fynd i'r afael ag anghenion ieuchyd meddwl myfyrwyr, darparu cymorth bugeiliol, a rheoli ymddygiad mwyfwy heriol ac eithafol. Mae'r ehangu hwn o ran dyletswyddau yn ychwanegu'n sylweddol at lwyth gwaith cyffredinol ac yn gwaethgu'r straen a brofir gan athrawon.

"Nid athrawon yn unig ydyn ni mwyach. Rydyn ni'n weithwyr cymdeithasol, rydyn ni'n therapyddion lleferydd, rydyn ni'n ffisiotherapyddion, rydyn ni'n therapyddion galwedigaethol, rydyn ni'n ddietegwyr, rydyn ni'n gwnselwyr. Rydyn ni'n bopeth. Dydw i ddim yn gwybod sut i baratoi athro i ddod i mewn i hynny i gyd" – Arweinydd ysgol ADY

"Rydych chi bron fel gweithiwr cymdeithasol ac rydych chi'n rhiant. Mae plant yn dod i mewn i'r feithrinfa sydd ddim yn gallu mynd i'r toiled, wyddoch chi? Felly, rydyn ni'n mynd â nhw i'r toiled drwy'r amser. Addysgu plant i ddefnyddio cyllyll a ffyr. Eu haddysgu i siarad. Wyddoch chi, mae llawer o blant yn dod i mewn ddim yn siarad – plant sydd ddim yn gallu siarad eto." – Athro Cynradd

25. Nodwyd hefyd fod athrawon yn wynebu disgwyliadau cynyddol, gyda gofynion ychwanegol yn deillio o gyfarwydddebau'r llywodraeth a mentrau ysgol gyfan. Yn aml, mae'r gofynion hyn yn ychwanegu'n sylweddol at eu llwyth gwaith, gan arwain at golli gwersi rhydd a'r angen i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel goruchwyllo gweithgareddau a rhaglenni ychwanegol. Mae hyn hefyd yn golygu bod llai o gyfnodau tawelach o 'amser segur' sy'n dilyn yn draddodiadol unwaith y bydd dosbarthiadau arholiadau wedi gadael, gan effeithio ymhellach ar gyfleoedd i athrawon orffwys, cynllunio ac adfer.

"Wel fi'n credu adeg hyn y flwyddyn fel arfer byddwn i'n cael mwy o wersi rhydd a mae pawb yn buddio yn cael y gwersi rhydd hyn, ond mae jest mwy o gofynion a disgwyliadau pob blwyddyn"- Pennaeth gwyddoniaeth

26. Ar ben hynny, nododd cyfranogwyr fod athrawon yn aml yn gweithio yn ystod eu gwyliau i baratoi ar gyfer dosbarthiadau, sy'n groes i'r canfyddiad bod athrawon yn elwa ar wyliau ychwanegol lle gallant orffwys ac adfer.

Llesiant staff

27. Roedd arweinwyr ysgolion ac athrawon yn cydnabod bod llwythi gwaith cynyddol yn cael effaith niweidiol ddofn ar lesiant cyffredinol staff yn y proffesiwn.

“Gadawodd un aelod o’r adran oherwydd ei bod hi mor anhapus yn y proffesiwn. Dywedodd ei fod wedi sugno’r bywyd allan ohoni” – Pennaeth leithoedd

28. Cytunodd athrawon ac arweinwyr ysgolion fod y cynnydd mewn salwch ymhlith staff wedi bod yn sylweddol a bod nifer y staff sy’n cymryd cyfnodau o salwch hirdymor wedi cynyddu. Mae hyn wedi arwain at ddibyniaeth ar athrawon cyflenwi, sy’n creu anghysondebau yn yr addysgu a’r dysgu a brofir gan fyfyrwyr. Mae hyn yn arbennig o anodd i’r rhai sy’n astudio arholiadau a gall arwain at sefyllfa lle mae gweddill y staff yn gweithio oriau ychwanegol neu’n cymryd gwersi ychwanegol i sicrhau bod pob myfyriwr wedi dal i fyny â gofynion y cwricwlwm.

“Fe wnaeth yr aflonyddwch effeithio ar ddysgu a chanlyniadau myfyrwyr - yn enwedig ym mlynnyddoedd 9 a 10. Yr aflonyddwch a’r diffyg cysondeb o ran athrawon oedd e’.” – Athro uwchradd (sydd wedi gadael yn ddiweddar)

29. Adroddodd staff addysgu hefyd eu bod yn teimlo “euogrwydd” wrth gymryd amser i ffwrdd oherwydd salwch. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y disgwyliad i gysylltu â’r ysgol mor gynnar â 7am a pharatoi deunyddiau gwersi ar gyfer eu dosbarthiadau tra byddant yn absennol. Mae hyn yn ychwanegu straen pellach at gyfnodau o salwch.

“Pan fyddwch chi’n ffonio i mewn yn sâl, rydych chi’n teimlo’n euog oherwydd eich bod chi’n gwybod y bydd rhywun arall yn cael diwrnod gwael iawn oherwydd eu bod nhw’n eich gorchuddio chi.” – Athrawes Newydd Gymhwyso

30. Nododd un pennaeth y gall gweld athrawon dan bwysau sylweddol ac yn wynebu trafferthion gyda’u lles fod yn rhwystr i fyfyrwyr ITE yn ystod lleoliadau. Rhybuddiodd fod profiadau o’r fath mewn perygl o wneud i athrawon dan hyfforddiant beidio â pharhau â’u hyfforddiant.

“Er mwyn denu pobl i’r proffesiwn mae angen neud yn siŵr bod athrawon presennol yn hapus yn eu gwaith ac yn hyrwyddo fe fel proffesiwn ar gyfer pobl y dyfodol. Ma’ lot angen eu neud ar rhan sicrhau bod y swydd dal i apelio i bobl sydd ‘da ni yn y proffesiwn achos nhw yw’r hysbyseb orau ar gyfer athrawon y dyfodol.” – Prifathrawes uwchradd

31. Tynnodd penaethiaid, arweinwyr ysgolion ac athrawon sylw at lesiant staff fel ffactor allweddol wrth gadw staff yn y proffesiwn ac, er bod ysgolion yn gallu rhoi systemau cymorth ar waith, yn aml nid yw’r rhain yn ddigon i gadw staff.

“Rydyn ni’n ceisio creu diwylliant agored lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn teimlo bod pobl yn gwrando arnyn nhw.” – Pennaeth Uwchradd

Blinder yn sgil newid

32. Mynegodd cyfranogwyr bryderon am y cwricwlwm newydd a’r ffordd roedd yn cael ei weithredu.

33. Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith bod y cymhlethdod a’r newidiadau mynych yn y cwricwlwm yn ei gwneud hi’n anodd i athrawon gadw i fyny a deall gofynion, gan arwain at anghysondebau yn y ffordd y caiff ei gymhwyso ar draws ysgolion. Mae’r disgwyliad parhaus i addasu i’r mentrau hyn, yn ogystal â natur heriol addysgu a dysgu, yn ychwanegu at bwysau llwyth gwaith ac yn cyfrannu at ludedd ymhlith staff.

“Mae gan bawb lwyth o waith ac yna mae ymyriadau newydd yn dod i mewn ac mae’n ormod” – Athro Uwchradd (sydd wedi gadael yn ddiweddar)

34. Adroddodd athrawon fod yr amwysedd o ran canllawiau’r cwricwlwm yn arwain at ddehongliadau amrywiol, gan gymhlethu eu cynllunio a’u cyflwyno. Mae’r diffyg canllawiau clir o ran sut i asesu’r cwricwlwm hefyd yn arwain at ansicrwydd a straen ymhlith staff.

“Rydych chi’n cael eich tynnu i wahanol feysydd. Gofynnir i ysgolion fod yn ddylunwyr cwricwlwm – nid dyna ydym ni. I fod yn ddylunwyr asesiadau yng Nghyfnod Allweddol 3 – nid dyna ydym ni. Mae yna

bethau positif i'r Cwricwlwm i Gymru, ond dydy'r system gyfan ddim wedi cael ei hystyried oherwydd, o ganlyniad, dydyn ni ddim wir wedi gallu canolbwyntio ar addysgu a dysgu, sef ein prif swydd" – Pennaeth

35. Beirniadodd un cyfranogwr hefyd y polisiau addysgol a roddwyd ar waith yn dilyn pandemig COVID-19, gan nodi, er bod rhai ysgolion wedi addasu'n dda, roedd llawer o athrawon yn teimlo mwy o bwysau i fodloni safonau newydd heb gymorth digonol. Pwysleisiodd y dylai polisiau gael eu llywio gan realiti addysgu, gan sicrhau eu bod yn ystyried y goblygiadau ymarferol i addysgwyr – heb ychwanegu straen ychwanegol.

36. Soniodd un cyfranogwr y gall mwy o graffu ar athrawon o ganlyniad i gynnydd mewn mentrau newydd greu "diwylliant gwenwynig" yn y gweithle. Roedd hi'n teimlo bod hyn yn dod o gyfeiriad rhieni, yn ogystal ag uwch reolwyr a chyrrff allanol. Esboniodd fod pwysau cynyddol i fodloni disgwyliadau ynghylch y cwricwlwm newydd, yn ogystal ag arholiadau a chanlyniadau myfyrwyr, yr oedd pob un ohonynt yn effeithio ar forâl staff.

Diffyg hyblygrwydd a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

37. Nododd y rhai a gymerodd ran ac a ymatebodd i'r arolwg fod pandemig COVID-19 wedi newid meddylfryd pobl ynglŷn â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gyda mwy o bobl yn profi mwy o hyblygrwydd yn y gweithle.

38. Mae'r anallu i gynnig hyblygrwydd o'r fath ym maes addysgu yn anfantais sylweddol ar gyfer recriwtio a chadw pobl yn y proffesiwn. Mae llawer o'r rhai a gyfwelwyd sydd wedi gadael y proffesiwn, wedi dweud mai awydd am hyblygrwydd yw un o'r prif resymau dros wneud hynny.

"Does dim hyblygrwydd o gwbl. Hyd yn oed os oedd gennych chi ddiwrnod heb wersi, roedd yn rhaid i chi fod yno [yn yr ysgol]. Er ein bod ni wedi bod trwy'r pandemig ac wedi profi ein bod ni'n gallu gweithio gartref." – Athro Uwchradd (sydd wedi gadael yn ddiweddar)

"Dydy addysgu ddim wedi symud ymlaen gyda'r oes. Dydy penaethiaid ddim yn ystyried yr angen i ddarparu gweithio hyblyg ac mae llesiant staff yn aml yn cael ei esgeuluso wrth geisio cynnal cyllidebau a staffio." – Arweinydd Ysgol Uwchradd

39. Soniodd athrawon am heriau sylweddol wrth sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd teuluol a gwaith, yn enwedig o ran gofal plant. Gwnaethant fynegi rhwystredigaeth am bolisiau gwyliau anhyblyg, sy'n ei gwneud hi'n anodd rheoli anghenion gofal plant, gan roi straen arbennig ar y rhai sydd â theuluoedd ifanc.

"Roeddwn i eisiau gyrfa sy'n ystyriol o deuluoedd felly fe wnes i ddewis addysgu gan wybod y byddwn i'n cael gwyliau a phenwythnosau i ffwrdd i'w treulio gyda fy nheulu. Roeddwn i mor anghywir. Gall rhywun gymryd fy lle yn y gwaith. Gall neb gymryd fy lle o ran fy nheulu." – Athro cynradd (sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar)

"Os yw [fy mab] yn sâl... ble ydyn ni'n dod o hyd i'n gofal plant? Gallwn ni ddim jyst cymryd diwrnodau i ffwrdd." – Athro cynradd

"Mae angen rhywfaint o ddealltwriaeth... Os ydyn ni'n cael trafferth i gael gofal plant, mae'n rhaid bod rhyw fath o hyblygrwydd." – Athro cynradd

"Hwnna oedd y profiad mwyaf anodd, heriol – bod â theulu ifanc iawn, a dim ond gweithio dau ddiwrnod hyd yn oed, y pwysau o addysgu mewn lleoliad ysgol brif ffwrdd. Roedd gofynion sylfaenol athro yn dal i ragori ar fy nghyfrifoldebau. Roeddwn i'n dal i ddod â gwaith adref. Er fy mod i'n dda am reoli amser, mae yna bethau sydd dal angen eu gwneud." – Athro cynradd (sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar)

40. Er mwyn gwella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a rheoli straen yn well, nododd cyfranogwyr fod nifer cynyddol o staff addysgu yn chwilio am drefniadau gweithio rhan-amser neu hyblyg. Fodd bynnag, tynnodd arweinwyr ysgolion sylw at yr heriau wrth ddarparu ar gyfer y ceisiadau hyn oherwydd cyfyngiadau o ran y gyllideb a strwythur cyfyngol cynhenid y diwrnod ysgol. Mae'r mater hwn yn cael ei deimlo'n fwy mewn lleoliadau uwchradd na lleoliadau cynradd ac mae'r anawsterau hyn yn cael eu gwaethygu ymhellach gan lefelau salwch staff cynyddol a heriau parhaus o ran recriwtio a chadw.

"Cyda llai o athrawon yn yr ysgol, mae hyn yn golygu bod nifer y bobl sydd angen gwisgo sawl het wahanol yn mynd yn fwy ac yn fwy. Felly rydyn ni ar y pwynt lle gallwn ni ddim rhoi'r hyblygrwydd hwnnw mae

pobl ei eisiau oherwydd rydyn ni jyst yn ceisio gweithredu yn y lle cyntaf.” – Arweinydd Ysgol Uwchradd

“Ceisio darparu ar gyfer gweithio rhan-amser a gweithio hyblyg yn yr amserlen yw un o’r problemau mwyaf sydd gen i” – Pennaeth Uwchradd

41. Roedd athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cydnabod y gallai mwy o hyblygrwydd wella recriwtio a chadw. Fodd bynnag, o ystyried yr heriau presennol yn y proffesiwn, roedd arweinwyr ysgolion yn teimlo, heb gynydd sylweddol i gyllidebau, fod cynnig hyblygrwydd o’r fath yn afrealistig. Maent yn credu y byddai aberth sylweddol heb hyn, a fyddai’n effeithio ar ansawdd addysgu a dysgu a ddarperir i fyfyrwyr yn y pen draw.

“Pe baech chi’n rhoi mwy o arian i ni, fel ysgol, ai mwy o hyblygrwydd i athrawon fyddai’r peth cyntaf y bydden ni’n gwario’r arian hwnnw arno? – nage, fwy na thebyg. Byddai’n helpu i gadw athrawon, byddai, ond mae yna leoedd eraill i’r arian fynd, fel darparu adnoddau i gefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.” – Arweinydd Ysgol Uwchradd

“Rwy’n credu y byddai’n wych pe gallem ni ddweud wrth staff y gallen nhw weithio un diwrnod bob pythefnos o gartref. Dwi’n meddwl y bydden nhw wir yn elwa o hynny” – Pennaeth Uwchradd

“Byddai fy staff yn elwa’n fawr ohono [gweithio’n hyblyg] – yr amser hwnnw i ffwrdd. Ond mae’n amhosibl ei roi ar waith” – Pennaeth Uwchradd

Recriwtio i bynciau blaenoriaeth

42. Roedd arweinwyr ac athrawon ysgolion uwchradd yn cytuno bod recriwtio athrawon ar gyfer pynciau blaenoriaeth yn dod yn fwyfwy anodd. Tynnodd ysgolion cyfrwng Cymraeg sylw at y ffaith bod gofynion iaith yn cymhlethu recriwtio ymhellach ar gyfer pynciau sydd eisoes yn anodd eu llenwi.

“Mae mathemateg a gwyddoniaeth yn broblem barhaus.” – Pennaeth Uwchradd

43. Mae athrawon pynciau blaenoriaeth hefyd yn pryderu am y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio'r pynciau hyn mewn lleoliadau ITE - yn enwedig o fewn addysg cyfrwng Cymraeg. Fe wnaethant fynegi pryder y bydd hyn ond yn gwaethygu heriau recriwtio presennol yn y dyfodol.

"Fi'n credu ni 'di cal pedwar neu pump myfyrwyr TAR yn yr ddeg mlynedd dwi di bod yn fan hyn. Fi'n deall mae tua pedwar neu pump (myfyrwyr) sydd yn prifysgol Abertawe wneud yn Ffiseg trwy'r Gymraeg leni" – Pennaeth Gwyddoniaeth

44. Nododd cyfranogwyr fod rhai arbenigwyr pwnc, fel y rhai mewn gwyddoniaeth neu TG, yn gallu cael cyflogaeth mewn diwydiannau sy'n cynnig gwell cyflog a hyblygrwydd nag addysgu.

"Mae oherwydd bod y gwahaniaeth rhwng cyflog athrawon a chyflog gweithwyr TG proffesiynol mor fawr. Pam y bydden nhw hyd yn oed yn trafferthu pan allech chi gael swydd yn gweithio gartref sy'n dechrau ar 40 mil yn syth?" – Athro TG uwchradd

"Fe wnaethon ni recriwtio ar gyfer technoleg yn ddiweddar a dim ond 3 ymgeisydd gawson ni. Dim ond 2 oedd yn addas i'w rhoi ar y rhestr fer. Bymtheg mlynedd yn ôl, roeddech chi'n recriwtio ac yn cael llawer [o ymgeiswyr] lle roeddech chi'n llunio rhestr fer go iawn, yn cael rhyngweithiadau o safon yn y dyddiau hynny, ac yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Nawr, rydych chi'n llunio rhestr fer ar sail faint o bobl sy'n gwneud cais a dydy'r broses o lunio rhestr fer yn y rhan fwyaf o feysydd ddim yn broses llunio rhestr fer." – Pennaeth Uwchradd

45. Disgrifiodd un Pennaeth Gwyddoniaeth mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yr anhawster cynyddol wrth recriwtio athrawon i'r adran, gan nodi gostyngiad sylweddol mewn ceisiadau am swyddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Adroddodd hefyd eu bod wedi colli dau arbenigwr gwyddoniaeth, y gadawodd y ddau ohonynt i ddilyn gyrfaedd eraill.

46. Mynegodd arbenigwyr pwnc blaenoriaeth bryder hefyd y gallai heriau recriwtio a chadw fygwth darpariaeth cyrsiau Safon Uwch yn y dyfodol. Nododd un pennaeth adran fod salwch ac absenoldebau staff hirdymor wedi dylanwadu ar ddewisiadau pwnc myfyrwyr, gyda rhai myfyrwyr yn dewis ysgolion eraill neu

golegau lleol oherwydd diffyg cysondeb addysgu yn ystod blynyddoedd arholiadau allweddol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr Safon Uwch yn ei hadran wyddoniaeth.

47. Mynegodd llawer o arweinwyr ysgolion ac athrawon bryder bod heriau recriwtio a chadw, gan gynnwys pynciau blaenoriaeth, hefyd yn arwain at fwy o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn addysgu'r pynciau hyn. Gall hyn gael effaith sylweddol ar gynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr.

"Rydyn ni newydd hysbysebu am athro Mathemateg oherwydd unwaith eto, mae rhywun wedi penderfynu gadael y proffesiwn – athro da, profiadol. Rydyn ni wedi cael 5 ymgeisydd, doedd dau ohonyn nhw ddim hyd yn oed yn athrawon, fe wnaethon nhw jyst penderfynu rhoi cynnig arni fel athrawon heb gymhwyso. Rydyn ni wedi rhoi tri ar y rhestr fer ac, mewn gwirionedd, dim ond un ohonyn nhw sy'n fathemategydd." – Pennaeth Uwchradd

"Mae gennym ni un athro Cymraeg ar gyfer 400 o ddisgyblion. Fe wnes i gais am un arall. Roedd un wedi'i hyfforddi mewn Hanes, un arall wedi'i hyfforddi mewn Astudiaethau Crefyddol, y ddau ohonyn nhw'n digwydd siarad Cymraeg. Yn amlwg, mae'r set sgiliau ar gyfer addysgu Cymraeg yn wahanol iawn i Hanes." – Athro Uwchradd

"Mae disgyblion yn ymwybodol bod nifer cynyddol o athrawon yn addysgu y tu allan i'w maes arbenigol" – Athro Uwchradd

48. Nododd mwy nag un cyfranogwr y gall enw da ysgol ddylanwadu'n sylweddol ar ei gallu i recriwtio athrawon ar gyfer pynciau anodd eu llenwi. Sylwodd arbenigwr Cymraeg fod ysgolion y credir eu bod yn "dda" yn fwy llwyddiannus wrth ddenu ymgeiswyr i'r adran. Yn ei phrofiad hi, roedd rolau pwnc blaenoriaeth mewn ysgolion nad oeddent yn cael eu hystyried yn rhai cystal yn llawer anoddach i'w llenwi ac roeddent yn aml yn dibynnu ar staff cyflenwi hirdymor.

"Os ydych chi'n athro Cymraeg sy'n chwilio am swydd ac mae un o'r ysgolion hynny mewn mesurau arbennig ac rydych chi'n gallu dewis pa ysgol i fynd iddi, wel rwy'n gwybod pe bawn i yn y sefyllfa honno, pa ysgol fyddwn i'n ei dewis" – Pennaeth Ysgol Uwchradd

49. Nododd cyfranogwyr fod anawsterau wrth recriwtio ar gyfer pynciau blaenoriaeth yn rhoi adrannau penodol mewn perygl o gael llai o amser ar gyfer y cwricwlwm. Lleisiodd Pennaeth Ieithoedd bryder am doriadau i ieithoedd rhyngwladol, gydag eraill yn adleisio rhwystredigaethau bod lleihau amserlenni yn creu cylchdro: mae ieithoedd yn cael eu dad-flaenoriaethu, sy'n arwain at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n eu hastudio, sydd wedyn yn eu gwneud yn fwy agored i doriadau pellach.

"Mae Ieithoedd Rhyngwladol wedi cael eu gwasgu allan o'r cwricwlwm yn y rhan fwyaf o ysgolion gan nad yw Pennaethiaid yn eu gweld fel blaenoriaeth a dydy dysgwyr ddim eisiau dysgu iaith arall yn ogystal â Chymraeg orfodol. Mae hyn yn achosi diffyg o ran y bobl ifanc sy'n astudio ITM i lefel gradd a TAR." – Athro Ysgol Uwchradd

50. Roedd athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cytuno y gallai'r gostyngiad mewn pynciau blaenoriaeth fel y celfyddydau ac ieithoedd danseilio recriwtio athrawon yn y dyfodol ac, ar yr un pryd, atal myfyrwyr sy'n wirioneddol angerddol am y meysydd hyn rhag eu dilyn ymhellach. Fodd bynnag, gydag ysgolion yn cael trafferth gyda chyllid cyfyngedig, maent yn tynnu sylw at y ffaith bod cynnal cyrsiau o'r fath gyda nifer isel o fyfyrwyr, yn anffodus, yn anghynaliadwy i lawer o ysgolion.

"Da ni'n saethu'n hunain yn y troed pan da ni ddim yn rhedeg y cyrsiau fel Celf, fel Ffrangeg - y pynciau ma lle does dim digon o niferoedd yn dewis nhw i gyfiawnhau gallu rhedeg nhw yn y chweched dosbarth. Be da ni'n neud wedyn ydyn ni'n colli mwy o darpar athrawon Ffrangeg, athrawon Cerdd neu athrawon Daeryddiaeth... ni'n colli cyfleoedd i gael athrawon yn y dyfodol yn y pynciau lleiafrifol yma. Da ni mynd i cyfyngu i nifer sydd yn mynd mewn i'r proffesiwn i ddysgu'r pynciau hynny yn y dyfodol yn sylweddol. Ond dydy o ddim yn cynaliadwy i ni fel ysgol rhedeg y cyrsiau ma." – Prifathrawes uwchradd

51. Mynegodd arweinwyr ysgolion bryder am fenter y Llywodraeth i gynyddu amser y cwricwlwm a neilltuir i wersi Cymraeg. Mynegodd un cyfranogwr rhwystredigaeth, o ystyried bod hwn yn faes sy'n hynod anodd i recriwtio iddo, ei fod yn teimlo'n heriol i gyrraedd y targedau hyn. Nododd sawl un y gall y targedau hyn amrywio yn ôl rhanbarth, gyda rhai ysgolion yn dod ar draws gwahanol lefelau o anhawster o ran eu cyrraedd.

“Mae llawer o ysgolion yn cael trafferth mawr i benodi staff [addysgu] Cymraeg. I’r graddau lle nad ydw i’n dysgu Cymraeg i bawb mwyach. Rwy’n addysgu llai o Gymraeg nawr nag oeddwn i 10 mlynedd yn ôl, oherwydd mae’r gallu i recriwtio staff [addysgu Cymraeg] yn heriol tu hwnt. Dydw i ddim ar fy mhen fy hun yn hynny o beth, mae yna lawer o ysgolion yn yr un sefyllfa.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

“Rwy’n wynebu sefyllfa nawr lle rwy’n gorfod dod o hyd i 26 o wersi Cymraeg y flwyddyn nesaf a dydw i ddim yn gwybod o ble mae’n mynd i ddod. O ystyried ein bod ni ar ddiwedd mis Mehefin, mae’n drychinebus ar hyn o bryd.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

“Fel ysgol trwy cyfrwng Cymraeg oedden ni mewn sefyllfa dwy flynedd yn ôl, lle doeddwn ni methu penodi ar ôl ail, trydydd hysbyseb, swydd athro/athrawes Cymraeg iaith cyntaf – swydd parhaol, llawn amser. Ychydig o flynyddoedd yn ôl byse ni di gorfod tynnu rhestr fer o rhestr hirfaith o’r rhai oedd wedi ymgeisio am y swydd honno. O ni fili credu oedd rhaid i ni edrych ar trydydd neu pedwerydd hysbyseb swydd athro/athrawes Cymraeg”- Pennaeth Ysgol Uwchradd

Recriwtio i rolau arweinyddiaeth / bugeiliol

52. Roedd cytundeb eang ymhlith cyfranogwyr bod recriwtio athrawon i rolau arwain bugeiliol yn dod yn fwyfwy heriol. Mae athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cytuno bod hyn o ganlyniad i gynnydd mewn ymddygiad heriol ymhlith myfyrwyr, yn ogystal â’r ffaith bod y rôl yn destun mwy o graffu gan uwch dimau arwain, rhieni, a gwasanaethau aml-asiantaeth. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cefnogaeth gan rieni yn hanfodol i sicrhau bod arweinwyr bugeiliol yn gallu cyflawni eu rolau’n effeithiol.

“Mae gan y rolau hynny oes silff oherwydd mae’n swydd anodd iawn. Mae’n swydd llethol iawn a dydy hynny ddim yn helpu agweddau tuag at y proffesiwn.” – Arweinydd Ysgol Uwchradd

“Mae’r staff hynny sy’n barod i symud ymlaen i arweinyddiaeth ganol ac uwch, maen nhw’n gweld y straen, maen nhw’n gweld y straen sydd ar yr uwch dîm arwain, ac mae llawer ohonyn nhw’n gwneud dewis ffordd o fyw... maen nhw’n dewis aros ar Uwch Raddfa Gyflog 3.

Y tro nesaf y bydda' i'n colli uwch arweinydd, rydw i wir yn mynd i'w chael hi'n anodd iawn.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

“Galla' i weld faint o bobl sy'n dweud nad ydyn nhw eisiau [rôl fugeiliol] er lles eu hiechyd meddwl eu hunain.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

“Un o'n swyddi fel arweinwyr yw ceisio argyhoeddi pobl bod hwn yn llwybr da, bod arnom eich angen chi yn y rôl hon... rydyn ni'n ceisio tynnu pobl i fyny trwy'r proffesiwn, lle y bydden nhw wedi bod yn ymladd dros y rolau hynny flynyddoedd yn ôl. Dydyn nhw ddim eisiau gwneud hynny mwyach.” – Pennaeth uwchradd

53. Nododd un cyfranogwr a oedd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar nad oedd am symud ymlaen i uwch rolau arwain oherwydd doedd hi ddim yn ymddangos bod y cyfrifoldeb ychwanegol hwn yn “werth y straen”. Fe nododd, os nad yw uwch rolau arwain yn apelio ac nad ydych chi eisiau aros yn yr ystafell ddosbarth, yna, fel ef, mae'n debygol y byddwch chi'n gadael y proffesiwn yn gyfan gwbl. Roedd athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cytuno hefyd fod nifer yr athrawon sy'n llifo trwy'r proffesiwn yn isel tu hwnt, sy'n effeithio ar recriwtio ar lefelau addysgu uwch.

“Dydy rolau [arweinyddiaeth] byth yn ymddangos yn werth chweil. Doedd straen y swydd ddim yn ymddangos yn werth chweil.” – Athro Ysgol Uwchradd (sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar)

54. Pwysleisiodd mwy nag un arweinydd ysgol fod recriwtio y tu hwnt i rôl pennaeth cynorthwyol yn arbennig o heriol ac mai ychydig iawn o uwch athrawon sy'n fodlon ymgymryd â chyfrifoldeb rôl dirprwy bennaeth. Mae hyn oherwydd y cyfrifoldebau cynyddol, y straen, a'r wobwr ariannol gyfyngedig sy'n gysylltiedig â swyddi dirprwy bennaeth sy'n gwneud y dilyniant yn llai deniadol.

55. Nododd arweinwyr ysgolion fod rolau arwain academiaidd yn llai heriol i'w llenwi, o ystyried eu pellter o'r craffu allanol uniongyrchol a wynebier gan arweinwyr bugeiliol. Fodd bynnag, nododd eraill fod staff wedi bod yn amharod i ymgymryd â rolau pennaeth adran o ystyried natur heriol y gwaith a'r amser cyfyngedig i ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.

“Dydy e’ ddim yn dod gyda’r amser ychwanegol sy’n caniatáu iddyn nhw wneud y gwaith. Mae angen iddyn nhw fod yn addysgu cryn dipyn o hyd.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

56. Wrth drafod strategaethau i gadw staff mewn rolau arwain trwy gyfleoedd datblygu proffesiynol penodol, pwysleisiodd penaethiaid pa mor anodd yw darparu ar gyfer ceisiadau staff i fynychu hyfforddiant allanol oherwydd ymrwymïadau amser y tu allan i’r ystafell ddosbarth, yn ogystal â’r costau uchel cysylltiedig. Er eu bod eisiau hwyluso’r datblygiad proffesiynol angenrheidiol, roedd cyfyngiadau o ran y gyllideb yn sgil yr heriau o ddod o hyd i staff cyflenwi ychwanegol yn aml yn gwneud y ceisiadau hyn yn anymarferol.

57. Disgrifiodd penaethiaid hefyd yr hyn yr oeddent yn ei ystyried fel ‘loteri’ ledled Cymru o ran y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i arweinwyr canol. Tynnwyd sylw at anghysondebau yn y ddarpariaeth yn dibynnu ar ba gonsortïwm neu ardal leol y mae ysgolion wedi’i lleoli, sy’n creu anghydraddoldebau o ran datblygiad proffesiynol a llwybrau dilyniant.

Canfyddiad y cyhoedd o addysgu

58. Mynegodd cyfranogwyr bryderon am ganfyddiad negyddol y cyhoedd o addysgu, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19.

59. Er gwaethaf rhwystredigaethau gyda nifer o faterion ym maes addysgu, mynegodd sawl cyfranogwr falchder a boddhad yn eu rolau, gan nodi y gall gweithio gyda phobl ifanc fod yn alwedigaeth bleserus a gwerthfawr.

60. Nododd un cyfranogwr fod llawer o rethreg negyddol wedi bod ynglŷn ag athrawon, gan arwain at ddiffyg parch proffesiynol, a allai atal newydd-ddyfodiaid posibl i’r proffesiwn.

“Mae yna farn eitha’ negyddol am athrawon, a dydyn ni ddim yn cael llawer iawn o barch proffesiynol mwyach” – Athro cynradd

“Dydy e’ ddim yn cael ei ystyried yn broffesiwn fel meddyg, neu gyfreithiwr.” – Pennaeth Cynradd

61. Cododd mwy nag un cyfranogwr bryderon am bortread y cyfryngau o ddigwyddiadau sy’n ymwneud ag athrawon, gan nodi bod sylw yn aml yn cael ei ogwyddo tuag at straeon negyddol yn hytrach na chyflawniadau cadarnhaol.

Roedden nhw'n teimlo bod achosion o gamymddwyn neu achosion dadleuon ynghylch athrawon yn derbyn sylw anghymesur yn y wasg, tra nad yw enghreifftiau o ymroddiad proffesiynol a'r cyfraniadau cadarnhaol i'r gymuned yn cael eu hadrodd yn aml.

"Mae pobl yn gweld y pethau negyddol yn y cyfryngau ac mae hynny'n broblem go iawn... y cyfan rydych chi'n ei ddarllen yw negyddoldeb ynghylch y maes addysg a pham fydddech chi'n cael eich denu ato fel person ifanc sy'n gadael y brifysgol pan mai'r unig beth rydych chi'n ei weld yw'r problemau gydag ymddygiad, rydych chi'n gweld achosion o staff yn destun ymosodiadau, rydych chi'n darllen y pethau negyddol sy'n dod o Estyn. Dydych chi byth yn gweld y pethau cadarnhaol ynghylch y swydd." – Pennaeth Ysgol Uwchradd

62. Gwnaethant ddadlau bod yr anghydbwysedd hwn nid yn unig yn llywio canfyddiad y cyhoedd o'r proffesiwn mewn ffordd niweidiol ond gall hefyd gyfrannu at forâl isel ymhlith staff ac atal athrawon newydd posibl rhag ystyried addysgu fel gyrfa werth chweil.

"Os ydym ni wir eisiau gwerthfawrogiad cadarnhaol o'r rôl addysgu, a'r gwaith da sy'n mynd ymlaen, yna stopiwch y pethau hyn rhag ymddangos yn y wasg. Mae'r cyfryngau wrth eu boddau, ond maen nhw'n cael effaith ddiferu ar y proffesiwn. Yr hyn rydyn ni'n ei weld heddiw yw effaith hynny." – Pennaeth Ysgol Uwchradd

63. Cododd un pennaeth enghraifft o ysgol arall sy'n wynebu adlach yn y cyfryngau am dynnu cerddoriaeth o'i chwricwlwm TGAU oherwydd diffyg galw. Maen nhw'n dadlau y dylai fod mwy o gyd-destun yn y wasg ynghylch pam y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau fel hyn, gan y gall yr achosion hyn niweidio canfyddiad y cyhoedd o ysgolion ac athrawon.

"Dydy cynnal dosbarth â 7 o blant ddim yn opsiwn hyfyw yn ariannol. Felly mae gan y cyfryngau ran fawr i'w chwarae." – Pennaeth uwchradd

64. Cododd un pennaeth bryder am amllder postiadau mewn fforymau ar-lein a grwpiau cyfryngau cymdeithasol lle mae athrawon yn ceisio cyngor ar adael y

proffesiwn, gan nodi bod hyn yn cyfrannu at naratif ehangach o anfodlonrwydd ym maes addysgu.

65. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at y canfyddiad deul heriol o addysgu. Mae'n cael ei ystyried yn yrfa anodd oherwydd llwyth gwaith uchel ac ymddygiad myfyrwyr ac yn swydd hawdd sy'n cynnwys gwyliau hir ar yr un pryd.

"Mae'n hawdd iawn i bobl ddweud, 'O wel, rydych chi'n gweithio naw tan dri ac yna mae gennych chi dair wythnos ar ddeg i ffwrdd y flwyddyn.' Rydyn ni'n gwybod nad felly y mae hi." – Athro Ysgol Cynradd

Ymddygiad myfyrwyr

66. Nodwyd bod pryderon ynghylch ymddygiad myfyrwyr yn rhwystr allweddol i fynd i mewn i'r proffesiwn ac aros ynddo.

"Mae ymddygiad [myfyrwyr] wedi mynd yn waeth ac yn waeth dros y blynyddoedd diwethaf." – Athro Ysgol Uwchradd

67. Mae cytundeb eang bod ymddygiad myfyrwyr wedi gwaethygu, gyda mwy o ddisgyblion hefyd yn mynd i'r ysgol gydag anghenion emosiynol neu anghenion dysgu ychwanegol. Roedd cyfranogwyr yn cysylltu'r cynnydd hwn â heriau ôl-COVID, newidiadau cymdeithasol, a mwy o ddiagnosis.

"Mae diffyg parch cyson ac agweddau plant tuag at ddysgu yn gyffredinol pan fyddan nhw'n siarad ag aelodau o staff" – Pennaeth leithoedd

68. Teimlai athrawon fod ysgolion prif ffrwd yn darparu ar gyfer ADY ac ymddygiadau mwy cymhleth erbyn hyn heb ddigon o adnoddau na staff arbenigol. Mae cyfyngiadau cyllido yn golygu nad yw'r ddarpariaeth Cynorthwywyr Cymorth Dysgu (LSA) yn ddigonol, gan ei gwneud hi'n anodd diwallu anghenion disgyblion neu gynnig gwahaniaethu priodol. Mae rhestrau aros ar gyfer lleoliadau arbenigol a gwasanaethau ADY yn hir, ac mae hyn yn gadael athrawon prif ffrwd dan bwysau.

69. Dywedodd un arweinydd ysgol mai ymddygiad eithafol un myfyriwr yn ei dosbarth a arweiniodd yn y pen draw at iddi adael y proffesiwn. Teimlai fod diffyg

cefnogaeth gan y pennaeth, ynghyd ag anallu'r ysgol i ymdrin ag ymddygiad eithafol ac yn aml yn dreisgar un myfyriwr, wedi'i gadael heb unrhyw ddewis ond "cerdded i ffwrdd o'r proffesiwn" neu fentro niwed difrifol i'w hiechyd.

"Tridiau'r wythnos, roeddwn i'n cael fy nghicio, fy mrathu, esgidiau'n cael eu taflu ataf, a Chromebooks. Mae hyn mewn ystafell ddosbarth lle'r oeddwn i'n dal i geisio addysgu 16 o blant eraill. Dydw i ddim yn dod i'r gwaith i cael fy anafu." – Pennaeth Cynorthwyol Cynradd (wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar)

70. Dywedodd athrawon fod myfyrwyr sy'n profi trawma gartref, sy'n effeithio ar eu hymddygiad a'u dysgu yn yr ysgol, yn cael eu cydnabod yn well nawr. Mewn ymateb, mae ysgolion yn buddsoddi fwyfwy mewn arferion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi'r myfyrwyr hyn ac i sicrhau bod staff yn gallu rheoli anghenion mwy heriol. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn teimlo nad yw'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion ac athrawon ar hyn o bryd yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol mwy difrifol myfyrwyr.

"Mae'r ymddygiadau wedi cynyddu, mae'r plant yn dod i mewn gyda gwaelodlin is... ac mae lefel yr angen mor eithafol." – Athro Ysgol Uwchradd

"Yn sicr, mae yna fwy o ymwybyddiaeth o'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu gydag ymddygiad sy'n gwrthannog pobl." – Arweinydd Ysgol Gynradd

71. Cytunodd y cyfranogwyr fod recriwtio a chadw yn gwaethygu materion yn ymwneud ag ymddygiad myfyrwyr, gan y gall anghysondebau mewn staffio, dibyniaeth ar athrawon cyflenwi, a pherthnasoedd yr amherir arnynt danseilio'r cysondeb a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen ar bobl ifanc er mwyn llwyddo yn yr ystafell ddosbarth.

"Mae gan rai dosbarthiadau nifer o athrawon gwahanol drwy'r flwyddyn; mae rhai plant yn ei chael hi'n anodd meithrin perthnasoedd ac oherwydd hyn rydym wedi gweld cynnydd mewn achosion o ymddygiad annerbyniol" – Athro Ysgol Cynradd

"Mae diffyg cysondeb o ran athrawon yn arwain at sefyllfa lle mae ymddygiad gwael yn llifo drosodd i wersi eraill. Mae angen cynefindra

a threfn arferol ar blant ac maen nhw'n hoffi hynny, ond dydy e' ddim yn digwydd yn aml erbyn hyn.” – Athro Ysgol Cynradd

72. Roedd athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cytuno, er bod ymddygiad myfyrwyr bob amser wedi peri heriau, gall rheoli ymatebion a chyfiawnhad rhieni ychwanegu haen arall o anhawster at rolau athrawon. Pwysleisiwyd bod cefnogaeth gref gan rieni yn hanfodol wrth helpu athrawon i reoli ymddygiad myfyrwyr yn effeithiol.

Cymorth ADY

73. Tynnodd sawl cyfranogwr sylw at y nifer cynyddol o fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau prif ffrwd. Beirniadodd un cyfranogwr y diffyg cefnogaeth gan awdurdodau lleol i ddiwallu'r anghenion hyn, gan nodi bod hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion, yn enwedig pan maent yn cefnogi myfyrwyr ag anghenion emosiynol, cymdeithasol neu niwroamrywiol, sy'n gofyn am fwy o gymorth.

*“Mae lefel yr angen mewn lleoliad prif ffrwd nawr... mae'n eithaf syfrdanol mewn gwirionedd. Dydyn nhw ddim yn cael y gefnogaeth.”
– Athro ADY*

“Mae mwy o bwysau [ar athrawon] oherwydd anghenion cynyddol y plant sy'n dod i ysgolion sydd ddim yn cael eu cefnogi gyda darpariaeth allanol... mae nifer y plant mewn ysgolion prif ffrwd na fyddai wedi bod yno ddeng mlynedd yn ôl yn ffactor go iawn. Mae hynny'n bwydo i mewn i'r broblem cadw a recriwtio.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

74. Tynnodd un arweinydd ysgol ADY sylw at y ffaith nad yw'r ddarpariaeth ITE fel arfer yn cynnwys lleoliad gorfodol mewn lleoliad ADY. Mae hi o'r farn y byddai hyn yn fuddiol nid yn unig i'r rhai sy'n meddwl am weithio gyda myfyrwyr ag anghenion ychwanegol, ond hefyd i staff prif ffrwd ennill profiad gan eu bod yn gallu dysgu a defnyddio sgiliau a strategaethau addysgegol a fyddai'n ddefnyddiol mewn lleoliadau prif ffrwd. Byddai hyn yn gwella nid yn unig ansawdd yr addysgu ym mhob lleoliad ond gallai hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at yr heriau a brofir gan athrawon o ran ymddygiad mewn ysgolion prif ffrwd.

“Byddai'n hyfryd pe bai gan bob athro yng Nghymru ryw fath o brofiad o weithio yn y sector ADY hyd yn oed os mai dim ond am

hanner tymor ydyw. Bydd yn agor eich llygaid i gymaint o wahanol strategaethau a chymaint o wahanol ddulliau addysgegol y gallwch chi eu defnyddio yn y brif ffrwd i ymgysylltu â dysgwyr.” – Arweinydd Ysgol ADY

Pryder ynghylch parodrwydd myfyrwyr AGA

75. Mynegodd athrawon ac arweinwyr ysgolion bryder am barodrwydd myfyrwyr AGA pan fyddant yn mynd i mewn i'r ystafell ddosbarth. O'u profiad nhw, roeddent yn teimlo nad oes gan rai athrawon gyrfa gynnar ddigon o wydnwch ac nad ydynt wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer realiti rôl addysgu amser llawn, gan gynnwys yr ystod eang o gyfrifoldebau ychwanegol sydd ynghlwm wrth y rôl.

“Mae yna myfyrwyr fi ‘di cael - o'n nhw’ di para dai mis falle. O'n i ddim yn gofyn iddyn nhw wneud unrhyw beth mas o'r arfer, jest marcio a dysgu plant. Mae nhw troi rownd a dweud dwi ddim rili eisiau bod yn athrawes, fi jyst yn mynd i fynd. A ma nhw jyst ddim gorffen y cwrs.” – Pennaeth gwyddoniaeth

“Mae rhai ohonyn nhw [myfyrwyr] wir yn meddwl bod addysgu yn hollol hyfryd a deniadol, a'i fod yn ymwneud ag ‘edrychwch ar fy arddangosfa hyfryd’ a dydy hynny ddim yn wir. Wyddoch chi, mae'n ymwneud â glanhau chwyd a delio â rhiant blin. Dydy e' ddim yn hudolus.” - Arweinydd ysgol gynradd

76. Tynnodd un cyfranogwr sylw at effaith Covid ar hyfforddiant athrawon, gan nodi bod rhai athrawon wedi colli profiad ymarferol yn ystod y pandemig, sy'n effeithio ar eu parodrwydd i addysgu.

77. Nododd cyfranogwyr y gallai bwrsariaethau ar gyfer pynciau blaenoriaeth fod yn effeithiol wrth gael myfyrwyr i astudio cyrsiau TAR. Fodd bynnag, nid yw llawer yn aros o fewn y proffesiwn oherwydd cyfleoedd mwy apelgar mewn diwydiannau cysylltiedig. Awgrymodd un pennaeth y gallai darparu cymhellion ariannol dros gyfnod hwy fod yn ffordd fwy llwyddiannus o gadw'r rhai sydd wedi hyfforddi yn y proffesiwn.

“Mae cymaint o bobl yn ei ddefnyddio fel opsiwn ‘gorffen prifysgol, ddim yn siŵr beth i'w wneud, beth am wneud hyn a chael fy nhalu

am flwyddyn'. Gallai fod mwy o gymhelliant ar gyfer y tymor hwy. Os oes budd ariannol i wneud y cyrsiau hynny, dylai hwnnw fod dros y pump i ddeng mlynedd nesaf, yn hytrach na 'dyma 15 mil i wneud blwyddyn.' – Pennaeth Ysgol Uwchradd

"Roedd gennym ni un [myfyriwr] ar gyfer pwnc blaenoriaeth uchel ychydig flynyddoedd yn ôl a oedd yn onest iawn gyda ni o'r diwrnod cyntaf ac a ddywedodd wrthym mai'r unig reswm yr oedd e' yno oedd i gael rhywfaint o arian a doedd e' ddim yn gwybod beth oedd e'n mynd i'w wneud eto. Doedd e' ddim yn ei weld fel llwybr gyrfa, roedd yn ei weld fel rhywbeth dros dro am flwyddyn ac aeth y person hwnnw ddim i addysgu. Fe wnaeth e' bara tan ddiwedd y flwyddyn, fe gymerodd y cyflog ac yna fe aeth e' i wneud rhywbeth arall." – Pennaeth Ysgol Uwchradd

78. Nododd un arweinydd ysgol gynradd fod angen datblygiad proffesiynol sylweddol er mwyn sicrhau bod athrawon newydd yn gyfarwydd â'r Cwricwlwm i Gymru, gan eu bod yn aml yn dechrau heb ddealltwriaeth lawn o'i elfennau allweddol. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion i ddarparu cefnogaeth ddigonol, a all alluogi athrawon newydd i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol.

79. Tynnodd pennaeth arall sylw at y ffaith bod ganddo bartneriaeth gref gydag un o'r darparwyr AGA mwyaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae traean o'r garfan myfyrwyr yn dod o Canada. Mynegodd bryder na fyddai'r athrawon dan hyfforddiant hyn wedyn yn mynd i'r proffesiwn yng Nghymru, gan leihau'r gweithlu sydd ar gael eto.

"Hyd yn oed pan mae gennych chi'r niferoedd – sydd, gyda llaw, wedi gostwng bob blwyddyn – yn un o'r darparwyr hyfforddiant mwyaf yng Nghymru, does gennych chi ddim y bobl yn dod drwodd i'r proffesiwn mewn gwirionedd." – Pennaeth Ysgol Uwchradd

80. Cwestiynodd athrawon ac arweinwyr ysgolion a yw safonau mynediad presennol yn paratoi hyfforddeion yn briodol ar gyfer y proffesiwn, gan fynegi pryder y gallai bylchau o ran parodrwydd, proffesiynoldeb neu gymwysterau gyfrannu at heriau recriwtio a chadw yn y dyfodol. Efallai bod hyn eisoes yn cyfyngu ar y gronfa o athrawon sy'n barod i gamu i rolau arwain.

"Does dim digon o niferoedd, ond mae problem ansawdd go iawn hefyd" - Pennaeth Ysgol Uwchradd

81. Fodd bynnag, adroddodd Athrawon Newydd Gymhwysu ac athrawon Gyrfa Ddechrau eu Gyrfaoedd eu bod yn teimlo'n llethol gan y disgwyliadau a osodwyd arnynt ar ddechrau eu gyrfaoedd. Teimlodd un ANG rhwystredigaeth ynghylch y diffyg "gras" a ddangoswyd i'r rhai sy'n addysgu dosbarthiadau ar eu pen eu hunain am y tro cyntaf.

"Roedd disgwyl i mi gael adroddiadau wedi'u gwneud am y tro cyntaf heb unrhyw brofiad a dim arweiniad." – Athro Newydd Gymhwysu

82. Adroddwyd bod y gefnogaeth a ddarperir gan sefydliadau AGA ac ysgolion lleoli eu hunain yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio profiadau hyfforddi athrawon dan hyfforddiant a'u hagwedd ddilysol at y proffesiwn. Gall anghysondebau mewn cefnogaeth ar draws darparwyr a lleoliadau ysgol arwain at wahanol lefelau o hyder ymhlith athrawon dan hyfforddiant.

"Byse ni di hoffi cal mwy o'r awenau achos nawr fi di dechrau gyda dosbarth fy hyn ma fe'n sioc i'r system" – Athro Newydd Gymhwysu

Trosiant uchel o staff cymorth

83. Pwysleisiodd athrawon ac arweinwyr ysgolion o leoliadau addysg arbennig fod trosiant staff cymorth yn eu hysgolion wedi bod yn uchel ers Covid, gyda chyflog yn cael ei nodi fel problem fawr. Mae hyn wedi rhoi straen sylweddol ar eu hathrawon, sydd angen cymorth pellach i ddarparu ar gyfer mwy o fyfyrwyr ag anghenion amrywiol a heriol.

84. Mewn lleoliadau ADY, nododd staff addysgu fod y rolau hyn yn arbennig o heriol. Yn aml, maent yn cynnwys gofal personol a chymorth dwys unigol, sy'n golygu eu bod yn ganolog i redeg yr ysgol. Fodd bynnag, nododd un pennaeth ALN, oherwydd y cyflogau isel a geir, fod llawer o'i staff cymorth bellach yn gorfod dibynnu ar fanc bwyd yr ysgol i oroesi.

"Pe bai fy athrawon yn mynd ar streic, bydden i'n gallu agor yr ysgol. Pe bai fy Nghynorthwyyr Addysgu yn mynd ar streic, allen ni ddim."

Maen nhw'n ganolog i'r hyn rydyn ni'n ei wneud – bydden ni ddim yn gallu gweithredu hebddyn nhw.” - Pennaeth ADY

“Rwy'n colli staff nid oherwydd nad ydyn nhw'n caru'r hyn maen nhw'n ei wneud, ond oherwydd nad ydyn nhw'n gallu fforddio byw. Rydw i wedi cael staff yn defnyddio banciau bwyd. Rydyn ni'n rhoi pethau ymolchi iddyn nhw. Y nwyddau mislif a phethau fel yna. Felly does dim rhaid iddyn nhw brynu'r rheini” – Pennaeth ADY

85. Tynnodd un arweinydd ysgol sylw at y ffaith bod proses recriwtio ddiweddar a gynhaliwyd ar gyfer staff cymorth wedi bod yn siomedig, gydag ychydig iawn o ymgeiswyr oedd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ymgymryd â rôl Cymorth Dysgu.

86. Yn aml, gall asiantaethau sy'n anfon ymgeiswyr heb gymhwyso ar gyfer swyddi dros dro ac amser llawn gymhlethu'r broses recriwtio ac effeithio ymhellach ar lwyth gwaith athrawon a'r straen maent yn ei hwynebu.

“Fe gawson ni 25 o bobl yn gwneud cais [am rolau Cymorth Dysgu], a oedd yn dda. Ond roedd gan gymaint ohonyn nhw ddim cymwysterau na phrofiad o gwbl sy'n berthnasol i'r rôl, mae'n ymddangos eu bod nhw'n meddwl amdano fel gofal plant neu rywbeth” – Arweinydd Ysgol Gynradd

87. Nid prinder rolau addysgu a dysgu yn unig sy'n effeithio ar y gweithlu addysgu, gan roi straen ychwanegol ar adnoddau ysgol. Tynnodd un pennaeth sylw at yr her o lenwi rolau hanfodol eraill, gan nodi bod cyflog uwch mewn diwydiannau eraill yn gwneud recriwtio yn arbennig o anodd. Er enghraifft, nid oedd ei ysgol yn gallu penodi Rheolwr Systemau Technoleg Gwybodaeth am ddwy flynedd, gan darfu ar swyddogaethau craidd fel cofrestriadau, amserlenni, a systemau technoleg o ddydd i ddydd. Mae'r prosesau hyn yn hanfodol er mwyn i fywyd ysgol fynd rhagddo'n ddiddrafferth ac felly cafodd pwysau ychwanegol ei roi ar athrawon ac arweinwyr ysgol.

“O ni mewn sefyllfa am ddwy flynedd a hanner, lle o ni methu, methu recriwtio (Rheolwr Systemau Technoleg Gwybodaeth) oherwydd bod amodau gwaith mewn sectorau eraill yn fwy ffafriol. Mae'r cyflogau yn well. Oedden ni'n edrych ar bod yn fwy hyblyg ar rhan oriau gwaith, ar rhan gweithio yn ystod calendr y flwyddyn. Oedden ni

gorfod llacio, oherwydd mi oedd yr hysbyseb wreiddiol yn dweud bod y 'Cymraeg yn hanfodol' – gorfod llacio iddo wedyn i fod 'Cymraeg yn ddelfrydol'. A dal methu recriwtio. Felly ni di prynu mewn i wasanaeth erbyn hyn yn lle cyflogi unigolyn i'r rôl.” – Pennaeth Uwchradd

Hirhoedledd gyrfa

88. Dywedodd sawl athro na fyddent yn dewis y proffesiwn eto pe byddent yn cael y dewis. Mae llawer yn adnabod cyn-gydweithwyr a adawodd y proffesiwn neu a ymddeolodd yn gynnar oherwydd straen, cyflog a llwyth gwaith. Mae rhai yn teimlo'n gaeth yn ariannol yn y rôl, yn enwedig ar ôl iddynt symud ymlaen ar y raddfa gyflog.

“Ddeng mlynedd i mewn... dydw i ddim yn siŵr a yw'n rhywbeth y byddwn i'n ei wneud eto.” – Arweinydd ysgol gynradd

“Yn anffodus, ac rwy'n golygu yn anffodus, pe bawn i'n gallu symud i rôl lle gallwn i ennill bron yr un fath â'r hyn rydw i'n ei ennill, y tu allan i addysg, byddwn i'n gwneud hynny – ond alla' i ddim. Sy'n drist iawn, oherwydd rwy'n caru'r hyn rydw i'n ei wneud, a'r budd rydych chi'n ei gael o'r plant hynny.” - Pennaeth

89. Mae'r rhai sydd wedi gadael y byd addysgu wedi crybwyll llwyth gwaith a lludded fel ffactorau sydd wedi cyfrannu at eu penderfyniad i adael y proffesiwn.

“Rydw i wedi sylwi mewn athrawon a allai fod 5-6, 7 mlynedd i mewn i'r yrfa, sydd fel, wel, alla' i ddim gwneud hyn am byth. Rwy'n adnabod cwpl o athrawon sydd wedi rhoi'r gorau iddi ac wedi mynd ati i sefydlu meithrinfa breifat” – Dirprwy Bennaeth Cynradd

“Mae nifer o staff sy'n dod mewn yn '30au - '40au sydd yn gweud bod nhw jyst yn edrych am ffordd mas o addysg. Maen nhw jest yn drist yn ei gwaith” – Pennaeth Gwyddoniaeth

“Rwy'n gwybod am ffaith fy mod i'n un o'r ychydig iawn yn fy ngharfan sy'n dal i [addysgu].” – Arweinydd Ysgol Gynradd

“Alla’ i ddim gweld fy hun yn dal i addysgu yn 40 oed. Dydw i ddim eisiau bod yn dadlau gyda phlant a rhoi fy hun dan straen.” – Athro Ysgol Uwchradd

90. Soniodd un cyfranogwr nad oedd hi erioed wedi gweld addysgu fel swydd am oes gan ei bod wedi cael ei dylanwadu gan brofiad ei rhieni a oedd ill dau wedi addysgu am ddeng mlynedd ar hugain. Nododd fod eu blinder ar ddiwedd eu gyrfaedd wedi dylanwadu ar ei chanfyddiad o addysgu fel gyrfa hirdymor hyfyw.

Craffu allanol

91. Cododd penaethiaid bryderon ynghylch prosesau craffu Estyn a’r fframweithiau a ddefnyddir i fesur llwyddiant ysgolion. Roeddent o’r farn bod y fframweithiau hyn yn aml yn “ymarferion ticio blwch” sy’n lleihaol ac yn methu ag ystyried cyd-destun ehangach ac amgylchiadau unigryw ysgolion unigol. Nododd arweinwyr y gall labeli o’r fath niweidio enw da ysgol, gan ei gwneud hi’n anoddach denu a chadw staff o ansawdd uchel.

92. Gall y broses arolygu ei hun hefyd roi pwysau sylweddol ar athrawon, gan effeithio’n negyddol ar forâl a lles. Mae hyn yn cyfrannu ymhellach at heriau recriwtio a chadw staff.

“Mae’n feirniadol yn hytrach na’n gefnogol. Rwy’n gwybod am ysgolion yng ngogledd Cymru sydd wedi bod mewn mesurau arbennig ers chwech neu saith mlynedd ac mae’n rhaid i chi edrych ar hynny a dweud ‘a yw’r system yn gweithio?’

Rwy’n gwybod y morâl yn y ddwy ysgol hynny ar hyn o bryd a’r heriau recriwtio yn y ddwy ysgol hynny ar hyn o bryd. Dydw i ddim yn credu bod ESTYN wedi bod o gymorth mawr o ran hynny. Mae ESTYN yn bwydo’r naratif o ysgolion sy’n methu. Dydy e’ ddim yn helpu gyda recriwtio, dydy e’ ddim yn helpu gyda straen, dydy e’ ddim yn helpu gyda phryder. Dydy e’ ddim yn helpu gyda chadw staff.

Rwy’n adnabod dau aelod o staff yn yr ysgolion hynny sydd ddim cweit wedi cyrraedd oedran ymddeol eto ond sydd wedi cael llond bol arno nawr. Maen nhw wedi cael digon. Maen nhw’n ddau arweinydd da iawn, yn athrawon da iawn, sydd wedi cerdded i ffwrdd o’r proffesiwn nawr.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

“Mae fy Nirprwy Bennaeth yn awyddus iawn i symud ymlaen ond ar ôl gweld Estyn fe ddywedodd e’ wrtha’ i – pam fyddwn i’n rhoi fy hun trwy hynny? Beth yw’r pwynt? – Pennaeth Ysgol Uwchradd

Cyllid

93. Nododd penaethiaid eu bod yn ei chael hi’n anodd cynnal safonau o fewn system sy’n cael ei thanariannu, yn eu barn nhw. Mae hyn yn effeithio ar eu gallu i ddyrannu adnoddau’n effeithiol, ariannu cyfleoedd datblygiad proffesiynol a darparu cymorth digonol lle bo angen. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar forâl a chymhelliant athrawon, gan arwain at anfodlonrwydd ymhlith staff.

“Rydyn ni’n rhedeg busnesau gwerth miliynau o bunnoedd ond, mewn gwirionedd, byddai llawer o’r busnesau hyn wedi cael eu cau oherwydd dydyn nhw ddim yn effeithiol. Dydy’r cyllid ddim yno. Felly pam fydddech chi’n annog pobl i fynd i mewn i’r swydd? Mae’n drist iawn oherwydd mae’n yrfa mor werth chweil.” – Pennaeth Ysgol Uwchradd

“Rydyn ni’n delio ag argyfwng cyllido, nid yn unig yn ein hysgolion ein hunain, ond o fewn y system gyfan. Gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu – rydyn ni’n ôl-lenwi ar eu cyfer nhw. Felly, mae’r gofynion ar ysgolion i gefnogi pobl ifanc, rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl tariff uchel, y mae eu teulu wedi chwalu, y maen nhw’n agored iawn i niwed, wrth wraidd yr hyn rydyn ni’n ei wneud erbyn hyn. Ond mae’r cyllid ar gyfer y pethau hynny yn cael ei dynnu oddi wrthym ni fel y mae oddi wrth bawb arall. Rydyn ni’n dod yn wasanaeth brys i’n pobl ifanc a does dim arian ar gael ar gyfer hynny.” – Pennaeth Uwchradd

Atebion

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno casgliad o syniadau a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn ystod y sesiynau ymgysylltu. Mae'r syniadau hyn yn cynrychioli safbwyntiau amrywiol y bwriedir iddynt geisio gwella'r sefyllfa bresennol.

Gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a lles athrawon

- 94.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr y byddai rhoi cyfleoedd i staff addysgu fod yn hyblyg yn cael effaith sylweddol ar gadw a recriwtio staff i'r proffesiwn. Roedd yr atebion a gynigiwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys cynnig trefniadau hyblyg a gweithio gartref lle bo hynny'n bosibl, ac ailystyried amserlenni i ganiatáu mwy o ymreolaeth dros amserlenni.
- 95.** Maent yn credu, er mwyn mynd i'r afael â materion recriwtio a chadw cyfredol, bod angen gwneud addysgu'n fwy cystadleuol gyda sectorau eraill sy'n denu staff medrus i ffwrdd o addysgu ar hyn o bryd.
- 96.** Cytunodd penaethiaid hefyd y byddai darparu "pecyn o gymorth cofleidiol" i adlewyrchu'r hyn y gall cwmnïau sector preifat ei gynnig yn fuddiol i les staff. Awgrymwyd y byddai dull cenedlaethol yn sicrhau cysondeb o ran pa becynnau buddion sydd ar gael i staff ac y byddai cynnig cymhellion fel aelodaeth campfa, cynlluniau ceir trydan, gwasanaethau cwnsela preifat a phecynnau gofal iechyd preifat yn effeithiol wrth wella lefelau cadw staff.
- 97.** Nododd penaethiaid y dylai cyllid ar gyfer cymorth lles cofleidiol gael ei ddarparu trwy fuddsoddiad gan y Llywodraeth genedlaethol, yn hytrach na bod ysgolion unigol yn gorfod dod o hyd iddo, o ystyried bod cymaint yn wynebu trafferthion gyda diffygion sylweddol.

Datblygiad proffesiynol cefnogol

- 98.** Nodwyd bod datblygiad proffesiynol effeithiol a gynigir i staff ar bob lefel yn strategaeth angenrheidiol ar gyfer cadw staff. Pwysleisiodd penaethiaid fod angen llwybr datblygu cenedlaethol, cydlynol a strwythuredig i athrawon yng

Nghymru. Maent o'r farn y byddai hyn yn ateb effeithiol i gefnogi cadw staff a gwella ansawdd addysgu, ac y byddai'n sicrhau cyfleoedd cyson i wneud cynnydd a hyfforddiant ar draws ysgolion ar yr un pryd. Dadleuwyd y byddai llwybr datblygu clir â digon o adnoddau nid yn unig yn meithrin sgiliau a hyder athrawon ond hefyd yn dangos bod modd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa. Byddai hyn yn helpu i wneud y proffesiwn yn fwy deniadol a chynaliadwy i athrawon newydd gymhwyso, yn ogystal â staff profiadol.

"Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw ddatblygiad addysgu a dysgu priodol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o fy ngyrfa wedi bod yn Lloegr ac mae yna strwythurau a systemau clir... Ble mae hynny yng Nghymru? Mae ESTYN yn dweud yn gyson ei fod yn broblem ond does dim byd byth yn cael ei wneud yn ei gylch.

Sut ydych chi'n cymryd y bobl hynny, sydd weithiau'n athrawon gwan, oherwydd natur y meysydd rydyn ni'n eu rhoi ynddyn nhw a'r pwysau rydyn ni'n eu rhoi arny'n nhw – sut ydych chi'n eu hyfforddi? Pan nad oes unrhyw gynllun hyfforddi go iawn yng Nghymru i ddatblygu pobl yn eu crefft. Mae hynny'n gamgymeriad dinistriol i wlad.

Mae gan rai systemau gyrsiau a hyfforddiant effeithiol iawn i raddedigion... mae'n nhw'n cymryd pobl o ddechrau eu proffesiwn, yn eu hyfforddi ar gyfer arweinyddiaeth ganol, yn eu hyfforddi ar gyfer arweinyddiaeth fugeiliol, yna'n eu hyfforddi tuag at uwch arweinyddiaeth. Mae yna gyrsiau allan yna ond dydyn nhw ddim yn gydlynol. Does dim strwythur clir ledled Cymru...dydyn ni ddim yn wlad fawr felly pam dydyn ni ddim yn gallu rhoi system fel yna ar waith?" – Pennaeth

99. Tynnodd arweinwyr ysgolion sylw hefyd at y ffaith bod datblygiad proffesiynol cadarn a phwrpasol yn annatod hefyd wrth gefnogi lles athrawon. Mae buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol strwythuredig a llwybrau cynnydd clir yn helpu staff i feithrin y sgiliau, yr hyder a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu athrawon i reoli eu llwyth gwaith a straen yn effeithiol, yn ogystal â theimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth gamu ymlaen yn eu gyrfa. Pwysleisiwyd bod buddsoddi mewn modelau datblygiad proffesiynol wedi sicrhau llwyddiant o ran cadw staff yn eu hysgolion eu hunain.

“Os ydyn nhw’n teimlo eu bod yn gallu cyflawni’r cyfrifoldeb sydd ganddyn nhw, mae hynny’n eu galluogi i reoli’r straen maen nhw’n ei hwynebu.” – Arweinydd ysgol uwchradd

Y buddsoddiad yn y model datblygu proffesiynol hwnnw sy’n cadw ein staff yma....Mae’r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maen nhw’n teimlo bod eu datblygiad proffesiynol yn cael ei werthfawrogi.” – Pennaeth uwchradd

“Gydag unrhyw fodel cynnydd, mae’n rhaid iddo fod yn gynaliadwy – mae’n rhaid iddo fod yn rhan o gynllunio hirdymor.” – Arweinydd ysgol uwchradd

100. Pwysleisiodd penaethiaid ADY y llwyddiant y maent wedi’i gael wrth gefnogi Cynorthwyr Cymorth Dysgu i ymgymryd â chysiau hyfforddi athrawon. Mae’r dull hwn wedi datblygu’r gweithlu presennol ac, ar yr un pryd, wedi creu llif o staff addysgu sydd eisoes â phrofiad mewn lleoliadau anghenion uchel.

Ymddygiad myfyrwyr a chymorth ADY

101. Pwysleisiodd staff addysgu fod angen cynyddu cymorth arbenigol, a sicrhau bod athrawon yn derbyn hyfforddiant a phrofiad ymarferol mewn rheoli anghenion amrywiol. Roedd yr awgrymiadau hefyd yn cynnwys lleoliadau gorfodol mewn lleoliadau ADY yn ystod addysg gychwynnol athrawon i roi strategaethau defnyddiol i athrawon y gallant eu defnyddio ar draws ystafelloedd dosbarth prif ffrwd.

102. Er mwyn rheoli anghenion amrywiol eu myfyrwyr, awgrymodd athrawon ac arweinwyr ysgolion y dylid gwella cyflog ac amodau staff cymorth er mwyn cydnabod y rôl hanfodol y mae’r staff hyn yn ei chwarae wrth sicrhau bod ysgolion yn parhau i weithredu, yn enwedig mewn amgylcheddau anghenion uchel.

Gwella llif ITE

103. Roedd yr atebion a gynigiwyd i fynd i’r afael â niferoedd isel o ITE yn cynnwys ymestyn cymhellion ariannol dros gyfnod hwy i gadw athrawon hyfforddedig, darparu cefnogaeth a chyfleoedd datblygu mwy cadarn i staff

newydd a phresennol, a sicrhau bod llwybrau pwnc blaenoriaeth a chyfrwng Cymraeg yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

104. Yn ôl penaethiaid, er bod llawer o fyfyrwyr TAR ac ITE yn cael eu hyfforddi mewn addysg gorfforol, mae lefelau cadw uchel yn y rolau hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd gwaith yn eu harbenigedd. Awgrymwyd y dylid ailstrwythuro rhaglenni ITE fel bod myfyrwyr hefyd yn hyfforddi mewn pwnc eilaidd, fel gwyddoniaeth, i fynd i'r afael ag anghenion staffio blaenoriaeth uchel.

105. Canmolodd rhai arweinwyr ysgolion y cwrs “Cynllun Pontio” am hyfforddi athrawon cynradd yn llwyddiannus i addysgu ar lefel uwchradd yn y sector cyfrwng Cymraeg, a galwodd am fwy o gyrsiau pontio a ariennir gan y llywodraeth i wneud yr un peth yn y sector cyfrwng Saesneg.

106. Pwysleisiodd staff addysgu ac arweinwyr ysgolion hefyd fod hyrwyddo addysgu fel gyrfa yn gynnar yn hanfodol i annog pobl ifanc i fynd i mewn i'r proffesiwn. Mae defnyddio profiad gwaith yn gyfle defnyddiol i dynnu sylw at fanteision addysgu.

“Does dim pwynt dechrau ar lefel prifysgol – mae’n rhy hwyr erbyn hynny. Mae angen i chi fod mewn ysgolion yn recriwtio, a cholli profiad gwaith, er enghraifft, ychydig flynyddoedd yn ôl oedd un o’r pethau mwyaf ffôl y gwnaethon ni erioed, a does dim amheuaeth ei fod yn sail i rai o’r problemau.” – Pennaeth uwchradd

“Angen recriwtio tra maent yn yr ysgol nid ar ôl graddio” – Athrawes gynradd

Cyllido ysgolion

107. Mynegodd arweinwyr ysgolion rwystredigaeth hefyd ynghylch yr heriau ariannol y mae ysgolion yn eu hwynebu, gan bwysleisio nad ydynt yn gallu darparu adnoddau effeithiol ar gyfer ysgolion i weddu orau i anghenion pobl ifanc heb fwy o gyllid. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig blaenoriaethu cymhellion i wella lefelau recriwtio a chadw staff (megis mwy o amodau gwaith hyblyg) ond gwella eu gallu i ddarparu nifer digonol o staff cymorth, cynnal cyfleoedd datblygiad proffesiynol a chynnig profiadau addysgu a dysgu gwerth uchel.

“Hyd nes y bydd cynnydd sylweddol yn y cyllid sy’n cael ei roi i ysgolion, fydd pobl ddim yn cael eu denu i’r rôl, oherwydd mae pawb

yn gwneud mwy nag sydd angen iddyn nhw ei wneud, mae gan fwy o staff fwy o gyfrifoldebau nag y byddai wedi bod ganddyn nhw fel arfer” - Pennaeth uwchradd

“Heb y sefyllfa bresennol o ran cyllidebau ysgolion, mae’n amhosibl cynnig hyblygrwydd i staff” – Pennaeth uwchradd

Canfyddiad y cyhoedd o addysgu

108. Awgrymodd athrawon ac arweinwyr ysgolion fod angen gwella’r ffordd yr eir ati i gyfathrebu â’r cyhoedd ynghylch gwerth y proffesiwn er mwyn denu staff o ansawdd uchel i’r proffesiwn. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig tynnu sylw at gyflawniadau, a chyd-destunoli penderfyniadau anodd y mae’n rhaid i ysgolion eu gwneud, fel newidiadau i’r cwricwlwm neu’r staff, i greu mwy o ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o waith athrawon ymhlith y cyhoedd.

Atodiad 1: Cwestiynau’r Cyfweiliadau a Grwpiau Ffocws

Roedd y cwestiynau canlynol ar gyfer y cyfweiliad yn ganllaw hyblyg i’r cyfwelydd ac ni ofynnwyd pob un ohonynt i bob cyfranogwr.

109. Cafodd y cyfweiliadau a grwpiau ffocws eu harwain gan gyfranogwyr, gan ganiatáu i’r sgwrs lifo’n organig; ni chyflwynwyd cwestiynau mewn trefn benodol ac ni chawsant eu geirio mewn ffordd benodol. Yn hytrach, fe’u defnyddiwyd i hwyluso trafodaeth yn seiliedig ar ymatebion ac anghenion y cyfranogwyr.

Athrawon Presennol

1. Beth yw'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau pobl i ymuno, neu beidio ag ymuno, â'r proffesiwn addysgu yng Nghymru heddiw?
 - *Tâl a chydabyddiaeth?*
 - *Canfyddiad y cyhoedd o athrawon/addysgu?*
 - *Effaith gweithio gartref mewn proffesiynau eraill?*
 - *Heriau o ran cydbwysedd bywyd/gwaith?*
2. Pa effaith mae diwygiadau addysg diweddar yng Nghymru (e.e. y Cwricwlwm newydd i Gymru a diwygiadau ADY) wedi'i chael ar recriwtio a chadw athrawon neu arweinwyr ysgolion?
 - *A yw athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cael digon o gefnogaeth i roi newidiadau ar waith yn effeithiol?*
 - *A yw diwygiadau'n rhwystro neu'n helpu o ran mynd i'r afael â'r broblem?*
3. Beth yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r rhai sy'n aros ym maes addysgu?
 - *Gofynion llwyth gwaith?*
 - *Cefnogaeth gan arweinwyr ysgolion?*
 - *Heriau o ran datblygiad gyrfaol neu gyfleoedd i arwain?*
 - *Iechyd meddwl a lles athrawon?*
 - *Tâl a chydabyddiaeth?*
 - *Ymddygiad mewn ysgolion?*
4. Beth yw'r heriau wrth recriwtio athrawon ar gyfer pynciau blaenoriaeth (e.e., STEM, leithoedd Modern Tramor a'r Gymraeg)?
 - *A oes rhwystrau penodol sy'n ei gwneud hi'n anoddach recriwtio ar gyfer y pynciau hyn?*
 - *Pa strategaethau y gellid eu rhoi ar waith i ddenu mwy o athrawon i'r meysydd hyn?*
 - *Sut gellir rhoi cefnogaeth well i athrawon mewn pynciau blaenoriaeth er mwyn gwella'r gyfradd cadw athrawon?*

4. Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth a ddarperir i athrawon newydd gymhwyso yn eich ysgol neu'ch lleoliad?

- *Pa gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael?*
- *Beth yw ansawdd y broses fentora a sesiynau cynefino?*
- *Pa mor gefnogol yw sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn y broses hon?*

5. Sut mae heriau recriwtio a chadw yn effeithio ar eich myfyrwyr?

- *Beth yw'r effaith ar les myfyrwyr a gofal bugeiliol?*
- *Beth yw'r effaith ar ganlyniadau academaidd myfyrwyr?*

7. Pa mor ddibynnol yw eich ysgol neu'ch lleoliad ar athrawon cyflenwi, a pha effaith mae hyn yn ei chael ar ddysgwyr a staff?

- *Effaith ar barhad addysgu a dysgu?*
- *Effaith ar ymddygiad, lles a chyrhaeddiad myfyrwyr?*
- *Effaith ar forâl yn yr ysgol?*

9. Dewisol: Ydych chi'n teimlo bod gwahaniaethau o ran heriau recriwtio a chadw rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg?

- *A oes angen mwy o gymhellion wedi'u targedu ar gyfer darpariaethau cyfrwng Cymraeg?*

10. Pa un newid fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar wella'r gyfradd cadw athrawon neu arweinwyr yng Nghymru?

Athrawon sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar

1. Beth oedd y prif ffactorau wnaeth arwain at eich penderfyniad i adael y proffesiwn addysgu yng Nghymru?

- *Ystyriaethau ariannol?*
- *Canfyddiad y cyhoedd o addysgu?*
- *Heriau o ran y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith?*

- *Effaith gweithio gartref mewn sectorau eraill?*
2. Sut effeithiodd y diwygiadau addysg diweddar yng Nghymru (e.e., y Cwricwlwm newydd i Gymru a diwygiadau ADY) ar eich penderfyniad i adael y proffesiwn?
 - *A gawsoch chi ddigon o gefnogaeth i ymaddasu i'r newidiadau hyn?*
 - *A wnaeth y diwygiadau hyn gyfrannu at eich penderfyniad mewn unrhyw ffordd (yn gadarnhaol neu'n negyddol)?*
 3. Beth oedd yr heriau mwyaf a wynebwyd gennych yn ystod eich cyfnod yn addysgu a ddylanwadodd ar eich penderfyniad i adael?
 - *Gofynion o ran llwyth gwaith ac amser?*
 - *Diffyg cefnogaeth i les athrawon?*
 - *Heriau o ran datblygiad gyrfaol neu gyfleoedd i arwain?*
 - *Tâl a chydabyddiaeth?*
 - *Ymddygiad mewn ysgolion?*
 4. Sut fydddech chi'n disgrifio'r gefnogaeth a gawsoch chi fel athro newydd gymhwyso ac yn gynnar yn eich gyrfa, os yw'n berthnasol? A wnaeth hyn effeithio ar eich penderfyniad i adael?
 - *A oedd digon o gyfleoedd dysgu proffesiynol?*
 - *A gawsoch chi fentora/cynefino a chefnogaeth o safon?*
 - *Pa mor gefnogol oedd eich sefydliad hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ystod y broses hon?*
 5. Oeddech chi'n teimlo bod yr heriau wrth addysgu wedi cael unrhyw effaith ar eich lles personol?
 - *Sut effeithiodd y swydd ar eich iechyd meddwl neu eich cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith?*
 - *A oeddech chi'n teimlo eich bod yn cael eich cefnogi gan eich ysgol neu'r arweinwyr wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn?*
 6. A wnaeth heriau recriwtio a chadw staff yn y system addysg ehangach effeithio ar eich penderfyniad i adael?

- *A wnaeth prinder staff, defnydd o athrawon cyflenwi, neu newidiadau o ran arweinyddiaeth effeithio ar eich amgylchedd addysgu?*
- *Pa effaith gafodd y ffactorau hyn ar eich profiad addysgu?*

7. Dewisol: A wnaethoch chi sylwi ar unrhyw wahaniaethau yn yr heriau y mae athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg yn eu hwynebu?

- *A oedd unrhyw bwysau penodol yn y sector cyfrwng Cymraeg a ddylanwadodd ar eich penderfyniad?*
- *Sut y gellid targedu strategaethau recriwtio a chadw staff yn well yn y lleoliadau hyn?*

8. Pa effaith gafodd eich penderfyniad i adael ar eich myfyrwyr a'u profiad dysgu?

- *Sut ydych chi'n teimlo am yr effaith ar les a chyrhaeddiad myfyrwyr pan fydd athrawon yn gadael y proffesiwn?*
- *A oedd unrhyw fylchau neu darfu amlwg ym mhrofiad dysgu'r myfyrwyr o ganlyniad i drosiant staff?*

9. Wrth edrych yn ôl, beth y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol yn eich barn chi i'ch atal rhag gadael y proffesiwn?

- *Pa newidiadau penodol a allai fod wedi gwneud gwahaniaeth i'ch penderfyniad i aros ai peidio?*
- *A oes polisiau neu systemau cymorth y gellid eu rhoi ar waith i gefnogi athrawon yn well yn eich barn chi?*

10. Pa un newid fyddai wedi cael yr effaith fwyaf ar eich penderfyniad i aros yn y proffesiwn addysgu ai peidio?

- *Llwyth gwaith, tâl, datblygiad gyrfaol, cefnogaeth i les athrawon – unrhyw resymau eraill?*

Athrawon Uwch-dîm Arwain a Phenaethiaid

1. Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu eich ysgol wrth recriwtio athrawon newydd?

- *A oes rolau neu bynciau penodol sy'n gyson anodd eu llenwi? (STEM, leithoedd Modern Tramor, y Gymraeg ac ati)*

- *Ydych chi'n teimlo bod cyrsiau hyfforddi athrawon yn effeithiol o ran recriwtio athrawon newydd?*
- *Pa rôl sydd gan ffactorau daearyddol neu ieithyddol (e.e., lleoliad gwledig, cyfrwng Cymraeg)?*

2. Sut mae'r gyfradd cadw athrawon yn effeithio ar eich ysgol neu eich lleoliad?

- *A oes tueddiadau o ran pa fathau o staff/athrawon pwnc sy'n fwy tebygol o adael?*
- *Pa effaith y mae trosiant yn ei chael ar addysgu a dysgu yn eich ysgol?*

3. Pa gefnogaeth neu strategaethau sydd fwyaf effeithiol o ran cadw athrawon yn eich profiad chi?

- *Ydych chi wedi cyflwyno unrhyw strategaethau mewn ysgol benodol sy'n gweithio'n dda?*
- *I ba raddau y mae mentrau recriwtio cenedlaethol yn cyd-fynd ag anghenion eich ysgol?*

4. Beth yw effaith diwygiadau addysg diweddar (e.e., Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY) ar eich rolau fel arweinwyr ysgolion, ac ar eich staff ehangach?

- *A yw diwygiadau'n ychwanegu at lwyth gwaith staff neu'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol?*
- *A yw staff yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth i addasu i'r newidiadau hyn?*

5. Sut fydddech chi'n disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i athrawon newydd gymhwyso yn eich ysgol?

- *A ddatblygwyd rhaglenni mentora a chynefino, ac a ydynt yn cael eu cefnogi'n dda?*
- *Beth yw'r rhwystrau mwyaf o ran cefnogi athrawon newydd gymhwyso ac athrawon ar ddechrau eu gyrfa yn effeithiol?*

6. Beth yw'r prif bwysau arnoch chi yn bersonol fel arweinydd ysgol?

- *Llwyth gwaith, atebolrwydd, arolygiadau?*
- *Cefnogaeth sydd ar gael (hyfforddiant ac ati)?*
- *Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith?*

- *Cadw athrawon?*

7. Ydych chi'n wynebu heriau o ran recriwtio a chadw arweinwyr ysgol (dirprwyon, penaethiaid adrannau, ac ati)?

- *Beth sy'n atal staff rhag ymgymryd â rolau arwain?*
- *Pa strwythurau datblygiad proffesiynol sydd ar waith i annog dilyniant?*

8. Sut mae heriau staffio yn effeithio ar gyrhaeddiad a lles myfyrwyr yn eich ysgol?

- *A yw bylchau staffio wedi ei gwneud hi'n anoddach cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ar eich myfyrwyr—naill ai'n academaidd neu'n fugeiliol?*
- *Sut mae myfyrwyr yn ymateb i newidiadau rheolaidd i'r staff?*

9. Sut mae eich ysgol yn defnyddio athrawon cyflenwi, a beth yw effeithiau hyn?

- *Beth yw'r effeithiau ariannol, addysgol, neu fugeiliol ar yr ysgol?*
- *A oes opsiynau amgen hirdymor yn cael eu hystyried?*

10. Pa rôl sydd gan staff cymorth a chynorthwyywyr addysgu ar hyn o bryd o ran darparu addysg, ac a yw hyn wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf?

- *A yw cyfrifoldebau staffio wedi newid?*
- *Beth fu'r effaith ar addysgu a dysgu?*

11. Dewisol: Ydych chi'n gweld unrhyw wahaniaethau rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg o ran recriwtio a chadw?

- *A oes pwysau neu fylchau sy'n benodol i un sector iaith?*
- *A ddylai fod mwy o gymhellion wedi'u targedu ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg?*

12. Pa gefnogaeth neu newidiadau fyddai'n eich helpu chi fwyaf i wella'r gyfradd cadw a recriwtio athrawon yn eich ysgol?

- *Arian? Cymorth iechyd meddwl gwell? Llwybrau recriwtio mwy effeithiol? Mwy o bolisiau gweithio hyblyg?*

13. Pe bai modd i chi wneud un newid yfory i helpu i fynd i'r afael â materion recriwtio neu gadw yn eich ysgol, beth fyddai hwnnw?

Atodiad 2: Cwestiynau Arolwg Byr

1. Beth yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r rhai sy'n aros ym maes addysgu?
2. Beth yw'r heriau wrth recriwtio athrawon ar gyfer pynciau blaenoriaeth (e.e., STEM, leithoedd Modern Tramor a'r Gymraeg)?
3. Sut mae heriau recriwtio a chadw yn effeithio ar eich myfyrwyr?
4. Pa un newid fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar wella'r gyfradd cadw athrawon neu arweinwyr yng Nghymru?

